**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

05 Tachwedd 2020

Annwyl Llŷr

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol Diwygiedig**

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2 mewn perthynas â Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), ac yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, mae Memorandwm Esboniadol diwygiedig wedi'i osod a hoffwn ddwyn sylw'r Pwyllgor at y newidiadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Gan ystyried bod yr amserlen ar gyfer craffu ar y Bil wedi'i hymestyn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig wedi'i osod mewn blwyddyn ariannol wahanol i'r gwreiddiol. O ganlyniad, mae'r costau cyflog blynyddol a ddefnyddir fel sail i gyfrifo costau staff mewn perthynas â Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi'u diweddaru i adlewyrchu graddfeydd cyflog ym mis Ebrill 2020.

Er gwaethaf yr oedi cyn dyddiad arfaethedig y Cydsyniad Brenhinol, bydd gweithgareddau gweithredu yn dal i ddechrau yn 2020-21, felly mae cyfnod cyfeirio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau i fod rhwng 2020-21 a 2029-30.

Mae'r gost amcangyfrifedig gyffredinol wedi gostwng o £17.17m i £16.09m, o fewn hyn mae'r costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru wedi cynyddu £306,000 (40%), tra bod y costau amcangyfrifedig i lywodraeth leol wedi gostwng £1.32m (7.6%).

Mae'r costau trosiannol rhagolygol a ysgwyddir gan y Comisiwn Etholiadol hefyd wedi gostwng, a nodir sail y costau diwygiedig hyn yn nhabl 3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r naratif cysylltiedig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Costau i Lywodraeth Cymru

Mae gwaith wedi parhau i fireinio'r cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau bod y trefniadau, y canllawiau a'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith i gefnogi’r gwaith o weithredu'r Bil, ar yr amod ei fod yn cael ei basio gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r costau wedi aros, yn sylfaenol, heb eu newid, ond bu newidiadau i'r costau mewn perthynas â Rhan 1 – etholiadau, a Rhan 2 – pŵer cymhwysedd cyffredinol.

O ran Rhan 1, wrth i'r cynlluniau gweithredu ddatblygu, daeth yn amlwg bod angen mwy o adnoddau staff nag a ragwelwyd yn wreiddiol er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau angenrheidiol yn cael eu cwblhau gan gynnal ymgysylltiad parhaus â'r gymuned etholiadol. Mae'r rhagolwg diwygiedig o ofynion adnoddau yn golygu bod y costau cyfle i Lywodraeth Cymru wedi cynyddu £272,000 dros y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22 gan wneud cyfanswm cost o £872,000. Mae hyn yn gynnydd o 45% (er bod y cynnydd hwn hefyd yn adlewyrchu'r graddfeydd cyflog diwygiedig a chynyddol).

Mae'r costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhan 2 wedi cynyddu £23,000 i £42,000 dros y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Mae'r cynnydd yn deillio o welliant Cyfnod 2 mewn perthynas â chanllawiau ar arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol. Mae amcangyfrif o’r costau o wneud Rheoliadau i ragnodi'r cymhwyster y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned ei ddal i fodloni'r ail amod cymhwystra sy'n ymwneud â'r pŵer cyffredinol hefyd wedi'i ychwanegu at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Costau i lywodraeth leol

Mae'r costau trosiannol a rheolaidd i lywodraeth leol wedi gostwng fel a ganlyn:

- Mae'r costau trosiannol a ragwelir wedi gostwng £535,000 i £2,415,000 ac mae’r rhagolwg hwn bellach dros dair blynedd ariannol o 2021-22 yn hytrach na 2020-21.
- Mae'r costau rheolaidd a ragwelir wedi gostwng £782,000 i £12,567,000.

Er nad yw'r cyfnod cyfeirio wedi newid, bu newid ym mhroffil y costau dros y cyfnod o 10 mlynedd. Y rheswm pennaf am hyn yw'r penderfyniad i ohirio cychwyn nifer o ddarpariaethau hyd at fis Mai 2022, a bydd hyn yn galluogi'r darpariaethau hyn i gael eu gweithredu gan y cynghorau newydd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn hytrach na gosod y gofynion newydd ar y cynghorau o fewn y 12 mis cyn yr etholiadau. Mae hyn wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn costau rheolaidd i lywodraeth leol.

Bu gostyngiad hefyd yn y costau a ragwelir, yn drosiannol ac yn rheolaidd, mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, o ganlyniad i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (‘Deddf y Senedd’). Pan gyflwynais y Bil hwn, roedd Deddf y Senedd yn dal i fynd drwy'r Senedd, a gyda'r Ddeddf honno bellach mewn grym, mae nifer o gostau a fydd bellach yn gysylltiedig, yn llawn neu’n rhannol, â’r Ddeddf honno yn hytrach na'r Bil hwn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chodi ymwybyddiaeth, cofrestru etholwyr newydd yn flynyddol ac ail-ddylunio'r ffurflenni safonol sy’n rhoi gwahoddiad i gofrestru.

Argymhellion y Pwyllgor

Yn fy llythyr dyddiedig 23 Mawrth, ar ôl cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, amlinellais fy ymateb cychwynnol i argymhellion y Pwyllgor, a gallaf nawr roi rhagor o fanylion mewn perthynas â'r argymhellion hynny sydd wedi arwain at ddiwygio’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Mewn ymateb i argymhelliad 8, mae'r arbedion posibl sy’n gysylltiedig â diddymu arolygon cymunedol wedi'u hystyried yn fanylach.  Nid yw wedi bod yn ymarferol gwrthbwyso’r costau sydd ynghlwm â sefydlu cynllun deisebau newydd yn erbyn yr arbedion hyn ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiwygio ym mharagraff 11.44 i adlewyrchu hyn.

O dan argymhelliad 9 argymhellodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd o'r effaith y gallai nifer y deisebau ei chael ar amser staff a’r gost o fonitro ac adolygu'r deisebau a dderbynnir.  Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 11.39 – 11.40.

Nid yw'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd prif gyngor yn electronig wedi'u diwygio ar hyn o bryd (argymhelliad 10), er y gwnaed newidiadau i'r naratif fel y'u nodir ym mharagraffau 11.76 i 11.78.  Ar ôl ystyried ymhellach y materion a godwyd gan y Pwyllgorau a rhanddeiliaid yng Nghyfnod 1, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau i'r darpariaethau hyn sy'n dileu'r gofyniad i ddarlledu pob cyfarfod yn fyw, gyda phrif gynghorau yn hytrach yn gorfod gwneud trefniadau ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor llawn yn unig wrth i'r cyfarfod gael ei gynnal.

Bydd y diwygiadau yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy wneud Rheoliadau, i ychwanegu cyfarfodydd eraill at y rhestr o'r rhai y mae'n ofynnol eu darlledu.  Gellir gwneud rheoliadau hefyd sy'n pennu amodau ar gyfer darlledu, a allai gynnwys materion fel pennu pa gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu'n fyw, a pha rai y gellir eu recordio’n fyw a'u darlledu'n ddiweddarach.  Mae'r rhain yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn dilyn Cyfnod 3 a byddaf, lle bo hynny'n berthnasol ac yn angenrheidiol, yn diwygio'r costau mewn perthynas â'r darpariaethau darlledu electronig, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau eraill a allai fod yn destun gwelliant yng Nghyfnod 3.

Yn olaf mewn perthynas ag argymhellion 19 a'r costau a allai ddod i ran Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'n strategaeth adolygu ar ôl gweithredu, byddaf yn ystyried y mater hwn wrth ddiwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 3 ac yn cynnwys manylion y costau cyfle hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig lle y bo'n briodol.  Byddwn yn rhagweld cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn fuan ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle eto i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government